# Datganiad i'r Wasg
# Press Release

Manylion pellach/Further details:
John Roberts 01286 675605 / 07770 781188 johnroberts@parabl.com
(Cyhoeddusrwydd/Publicity) neu/or Iolo Watcyn Thomas 01286 675333
/ 07901 688263 iolowatcyn@gmail.com (Ysgrifennydd/Secretary)
www.cormeibioncaernarfon.org

CÔR MEIBION
• C A E R N A R F O N •

## CYNGERDD NADOLIG CORAU CAERNARFON
## YN CASGLU £1,243 I AMBIWLANS AWYR CYMRU

Casglwyd £1,243 i elusen Ambiwlans Awyr Cymru mewn cyngerdd Nadolig llwyddiannus yn Eglwys y Santes Fair Caernarfon ar 7 Rhagfyr 2018 lle canwyd carolau gan bedwar o gorau tre'r Cofis: Côr Dre, Côr Cofnod, CôrNarfon a Chôr Meibion Caernarfon.

Mae'r corau yn eu tro yn trefnu'r digwyddiad blynyddol a chydgordiwyd y cyngerdd hwn gan Gôr Meibion Caernarfon. Cytunodd y pedwar côr i gyflwyno'r elw i Ambiwlans Awyr Cymru.

Ar nos Fawrth 8 Ionawr 2019, daeth Alwyn Jones, Cydlynydd Gwynedd, Ambiwlans Awyr Cymru i ymarfer cyntaf Côr Meibion Caernarfon wedi toriad y Nadolig i dderbyn yr arian.

Meddai: "Diolch i'r pedwar côr am eu haelioni. Codwyd y swm enfawr o £1,243 - cyfraniad gwerthfawr tuag y £6.5 miliwn y flwyddyn yr ydym ei angen i gadw ein pedair hofrennydd yn hedfan ym mhob rhan o Gymru.

"Roedd Eglwys y Santes Fair yn llawn dop a mwynhaodd pawb ganu carolau ysbrydoledig gan y pedwar côr."

Meddai Alwynne T Jones, Cadeirydd Côr Meibion Caernarfon: "Mae'r cyngerdd hwn yn ein gosod mewn cywair Nadoligaidd bob blwyddyn. Y tro yma, roedd yn gyfle i ddweud diolch yn fawr iawn am wasanaeth yr hofrenyddion coch sy'n achub cymaint o fywydau."

**DIWEDD**
**09/01/2019**

**Llun ynghlwm** (chwith i'r dde): Iolo Thomas - Ysgrifennydd, Côr Meibion Caernarfon; Alwyn Jones, Cydlynydd Gwynedd Ambiwlans Awyr Cymru ac Alwynne T Jones, Cadeirydd Côr Meibion Caernarfon yn derbyn Tystysgrif o Werthfawrogiad ar ran y pedwar côr.

Manylion pellach:
Alwyn.Jones@walesairambulance.com
Côr Dre, Côr Cofnod, CôrNarfon & Côr Meibion Caernarfon.

***ENGLISH VERSION ON NEXT PAGE***

# Datganiad i'r Wasg
# Press Release

Manylion pellach/Further details:
John Roberts 01286 675605 / 07770 781188 johnroberts@parabl.com
(Cyhoeddusrwydd/Publicity) neu/or Iolo Watcyn Thomas 01286 675333
/ 07901 688263 iolowatcyn@gmail.com (Ysgrifennydd/Secretary)
www.cormeibioncaernarfon.org

CÔR MEIBION
• CAERNARFON •

**FOUR CAERNARFON CHOIRS RAISE**
**£1,243 FOR THE WALES AIR AMBULANCE**

£1,243 was raised for the Wales Air Ambulance service at a successful Christmas concert in St Mary's Church, Caernarfon on 7 December where carols were sung by four of the town's choirs: Côr Dre, Côr Cofnod, CôrNarfon and Côr Meibion Caernarfon.

The town's choirs take it in turn to organise this annual event and it was co-ordinated by Côr Meibion Caernarfon on this occasion. All four choirs agreed that the proceeds should go to the Wales Air Ambulance Service.

On Tuesday 8 January, Alwyn Jones, Gwynedd Community Co-ordinator for the Wales Air Ambulance Service, came to the Côr Meibion Caernarfon's first rehearsal of the new year to receive the donation.

He said, "I thank all four choirs for their generosity. The huge sum of £1,243 was raised - an important and much appreciated contribution towards the £6.5 million we need to collect annually to keep our four helicopters flying throughout Wales."

He added, "The packed audience at St Mary's Church enjoyed inspiring performances of Christmas carols by all four choirs."

Said Côr Meibion Caernarfon Chairman, Alwynne T Jones, "This annual carol concert puts us all in the Christmas spirit. This time, it was a chance to say thanks to everyone associated with the magnificent red helicopters which have saved so many lives."

**ENDS**
**09/01/2019**

**Photo attached** (left to right): Iolo Thomas, Secretary, Côr Meibion Caernarfon; Alwyn Jones, Gwynedd Community Co-ordinator Wales Air Ambulance and Alwynne T Jones, Chair Côr Meibion Caernarfon receiving a Certificate of Appreciation on behalf of the four choirs.

Further details:
Alwyn.Jones@walesairambulance.com;
Côr Dre, Côr Cofnod, CôrNarfon & Côr Meibion Caernarfon.

*CYMRAEG AR Y DUDALEN FLAENOROL*

# Datganiad i'r Wasg
# Press Release

Manylion pellach/Further details:
John Roberts 01286 675605 / 07770 781188 johnroberts@parabl.com
(Cyhoeddusrwydd/Publicity) neu/or Iolo Watcyn Thomas 01286 675333
/ 07901 688263 iolowatcyn@gmail.com (Ysgrifennydd/Secretary)
www.cormeibioncaernarfon.org

CÔR MEIBION
CAERNARFON

